Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PYSGODFA GOCOS WHITEFORD 2025

HYSBYSIAD CYHOEDDUS

wedi'i gyhoeddi yn unol â

Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

Mae GWEINIDOGION CYMRU YN HYSBYSU, yn unol â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, y bydd y gwelyau cocos a ganlyn yn agor.

Mae Whiteford a ddiffinnir isod ("gwelyau cocos Whiteford") yn galluogi casglu cocos un llanw ar ddydd Mawrth a dydd Mercher yn unig, a chydag effaith o 00:01 ar y 4 Chwefror 2025.

**Yr Ardal**

Yr ardal wedi'i chau gan yr hysbysiad hwn yw'r ardal o fewn Aber Casllwchwr, sydd wedi'i hamgáu gan linell a dynnir tua'r dwyrain o Aber Casllwchwr (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SS 4420 9826) i Bwynt Hills Tor (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SS 4280 9422) i Bwynt Whiteford (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SS4472 9670). Dyfroedd llanw yw'r terfynau hynny a ddiffinnir gan Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024:

A). SS 4420 9826; 51° 39'.683 Gogledd, 004° 15'.233 Gorllewin.

Wedyn mewn llinell syth i gyfesuryn:

B). SS 4280 9422; 51° 37'.483 Gogledd, 004° 16'.35 Gorllewin

Wedyn mewn llinell syth i gyfesuryn:

C). SS 4472 9670;  51° 38'.85° Gogledd, 004° 14'.75 Gorllewin

Rhoddir yr Hysbysiad hwn o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad yr hysbysiad: 28 Ionawr 2025

Nodiadau:

1. Deddfwriaeth arall. Yng ngwely cocos Whiteford, rhaid i unrhyw un sy'n pysgota am gocos, eu symud ymaith, eu cymryd (neu'n ceisio eu pysgota neu eu cymryd) neu darfu arnynt, yn unol â'r Hysbysiad hwn, gydymffurfio hefyd â phob deddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r gweithgaredd hwnnw yn y lle hwn.

2. Mae'r gwely cocos yn ardal aber Traeth Whiteford yn parhau ar gau i gasglu cocos (hyd at 23:59 ar y 3 Chwefror 2025). Mae'r gwelyau wedi'u cau am gyfnod dros dro er mwyn gwarchod cocos sy'n anaeddfed neu'n rhy fach ac er mwyn eu helpu i ddatblygu.

3. Trwyddedau. Heb ragfarnu ystyr cyffredinol Nodyn 1, rhaid bod gan unrhyw un sydd am bysgota am gocos, eu cymryd neu eu symud ymaith o wely cocos Whiteford drwydded a roddwyd yn unol â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, a rhaid gwneud hynny yn unol â'r amodau yn y drwydded honno.

4. Oriau golau dydd. Eto, heb ragfarnu cyffredinolrwydd ni chaiff unrhyw berson bysgota am gocos na'u cymryd yn yr ardal hon rhwng hanner awr ar ôl y machlud ar unrhyw ddiwrnod a hanner awr cyn y wawr ar y diwrnod canlynol.

5. Un llanw. Dim ond y Dŵr Isel agosaf at ganol dydd (Amser Lleol) ddylai gael ei bysgota. Os oes amheuaeth ynglŷn â pha Ddŵr Isel sy'n briodol, yna dylid dewis Dŵr Isel cyntaf y dydd i leihau'r risg i gasglwyr sy'n gysylltiedig â chychod yn dychwelyd o'r gwelyau cocos yn ystod oriau'r tywyllwch.

6. Terfynau Dalfa Cychwynnol: Ar hyn o bryd mae terfyn dalfa cychwynnol o 174 tunnell o gocos ar gael ar welyau cocos Whiteford. Unwaith y cyrhaeddir y terfyn dal cychwynnol, bydd y bysgodfa yn cau. Rhaid gwneud hyn i gydymffurfio ag ymrwymiadau amgylcheddol Gweinidog Cymru.

7. Diffinnir y dŵr yn Aber Casllwchwr yn "fôr". Bydd cwch sy’n ymwneud mewn unrhyw fodd â chludo personél, offer neu gargo ar gyfer casglu cocos yn yr ardal yn gweithredu’n fasnachol. Rhaid i unrhyw gwch sy'n gweithredu'n fasnachol gydymffurfio â Deddfwriaeth Cychod Masnachol y Deyrnas Unedig. Mae rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth hon ar wefan MCA,

   https://www.gov.uk/government/organisations/maritime-and-coastguard-agency

Map yn dangos gwely cocos Whiteford rhwng pwyntiau Aber Llwchwr, Hills Tor a Phwynt Whiteford.




© Crown Copyright and database right 2020. Ordnance Survey 100021874.
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2020. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.

RHAGOR O WYBODAETH
Cewch ragor o wybodaeth drwy gysylltu â:

Yr Is-adran Pysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court
Parc Busnes Haven's Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro SA73 3LS

Ffôn: 0300 025 3500 E-bost: Pysgodfeydd@llyw.cymru